

# Llwybr Cyflogedig: Ymrwymadau ysgolion bartner

- Talu'r aelod o staff ar bwynt 1 y raddfa gyflog athro heb gymhwyso yn llawn amser am gyfnod y rhaglen
- Blwyddyn 1 – darparu amserlen o tua 50% cyflogaeth a 50% o amser TAR (astudio ar-lein, addysgu dan oruchwyliaeth a gweithgareddau yn yr Ysgol)
- Rhyddhau eich myfyriwr ar gyfer ail brofiad dysgu am 25 diwrnod bloc llawn amser yn nhymor yr haf ym mlwyddyn 1.
- Blwyddyn 2 – darparu amserlen o 70% o addysgu dosbarth prif ffrwd annibynnol gydag arsylwadau ffurfiol misol a mentora wythnosol. Sicrhau profiad o ddau gyfnod oedran yn olynol dros ddwy flynedd.
- Adnabod Mentor dosbarth. Sesiynau mentora wythnosol wedi'u hamserlennu, arsylwi rheolaidd ac asesu ffurfiol. Darparu amser ar gyfer hyfforddiant.
- Nodi uwch aelod o staff fel Cydlynnydd Ysgol i arwain darpariaeth y Brifysgol Agored. Darparu amser ar gyfer hyfforddiant a gweithgaredd sicrhau ansawdd.
- Cefnogi'r defnydd o IRIS Connect ar gyfer arsylwi addysgu o bell ar-lein trwy ffilmio gwersi a gweithio gyda thiwtor ymarfer.

## Cefnogaeth Wedi'i Gwella ar gyfer Grantiau Cyflog i Ysgolion

Mae diweddariadau diweddar i gynllun grant cyflog Llywodraeth Cymru wedi gwneud y Llwybr TAR Cyflogedig yn fwy hygyrch nag erioed:

- ✓ **Mae ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg** bellach yn derbyn **grant cyflog o 100%** ar gyfer myfyrwyr sy'n hyfforddi mewn unrhyw un o'r saith pwnc cymwys.
- ✓ **Mae ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg** sy'n cymeradwyo myfyriwr i ddod yn **athro Cymraeg** hefyd yn derbyn **grant cyflog o 100%**.
- ✓ Ar gyfer pynciau lle mae prinder athrawon, **mae ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg** yn derbyn **cyfraniad cyflog o 50%**.
- ✓ **Gall ysgolion uwchradd yn y categori pontio iaith** fod yn gymwys i dderbyn **grant cyflog o 100%** (yn amodol ar delerau ac amodau).
- ✓ **Gall ysgolion cynradd – cyfrwng Cymraeg a Saesneg** – bellach gael mynediad at **grant cyflog o 50%** wrth noddi myfyriwr TAR Cyflogedig.